# Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol, a'u

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol, a'u cefnogi. Mae'n cynnwys eich gallu i wrando, cwestiynu, deall ac ymateb i'r hyn maen nhw'n ei ddweud. Fel rhan o'r safon hon, byddwch yn cymryd camau gweithredu ategol perthnasol a gwaith adfer, gyda'r nod o reoli risg niwed parhaus sy'n deillio o gamdriniaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfathrebu â phlant a phobl ifanc mewn amgylcheddau diogel a chefnogol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
2. gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n addas i'w hanghenion a'u galluoedd, ac sy'n:
   - annog cwestiynau
   - gwirio am ddealltwriaeth
   - defnyddio technegau gwrando gweithredol
3. archwilio amgylchiadau personol gyda phlant a phobl ifanc sy'n berthnasol i sefydlu natur camdriniaeth
4. helpu plant a phobl ifanc i archwilio'u teimladau mewn ffyrdd sy'n annog deilliannau cadarnhaol, ac:
   - ymateb yn adeiladol i'r datgeliad cychwynnol o gamdriniaeth
   - mynd i'r afael ag unrhyw deimladau o euogrwydd
   - nodi eu gobeithion am gyflawni'r casgliad gorau posibl
5. gwirio bod cydweithiwr arall yn eich cwmni ac yn arsylwi arnoch yn eich holl ryngweithiadau gyda phlant a phobl ifanc
6. asesu arwyddion o gam-drin domestig neu drais rhywiol posibl sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn unol â chanllawiau sydd ar gael
7. archwilio pryderon a gwybodaeth gan bobl eraill berthnasol am ddiogelwch, iechyd a lles plant a phobl ifanc
8. gyda phlant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr, trafod ffactorau a allai effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles
9. cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mewn ffyrdd priodol i'w hoedran, eu gallu, eu dymuniadau a'u teimladau
10. llunio barnau a gweithredoedd ystyriol am anghenion diogelu a gwarchod plant a phobl ifanc, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
11. gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr, archwilio gwahanol ddulliau gweithredu a'u canlyniadau cymharol
12. ymateb yn adeiladol i unrhyw bryderon am gamau diogelu gan blant, pobl ifanc a'u teulu a'u gofalwyr
13. cael cydsyniad plant, pobl ifanc a'u teulu a'u gofalwyr ar gyfer camau gweithredu cytunedig, yn unol â gofynion y sefydliad

14. crynhoi sefyllfaoedd i hyrwyddo dealltwriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gyfrif am eu hoedran, eu gallu, eu dymuniadau a’u teimladau
15. cael gwybodaeth sy’n berthnasol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gamdriniaeth, gan gynnwys:
• nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth
16. cytuno ag eraill ar bwy fydd yn darparu gwybodaeth, erbyn pryd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
17. asesu’r wybodaeth sydd ar gael, yn berthnasol i gefnogi plant a phobl ifanc
18. darparu gwybodaeth am blant a phobl ifanc i'r bobl y mae angen y wybodaeth arnynt ac mae ganddynt hawl i’w chael
19. esbonio wrth blant, pobl ifanc a’u teulu a’u gofalwyr pa wybodaeth y gall fod angen ei rhannu â phobl eraill, a pham
20. cael cydsyniad plant, pobl ifanc a’u teulu a’u gofalwyr i rannu eu gwybodaeth gydag eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
21. rhannu gwybodaeth gydag eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
22. atgyfeirio i weithwyr proffesiynol eraill, fel y bo’n briodol, i fodloni anghenion plant a phobl ifanc
23. cynnal cofnodion gwybodaeth a deilliannau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt.
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. rôl, cylch gwaith a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â chamdriniaeth, gan gynnwys darparu cefnogaeth i blant, pobl ifanc, eu teulu a'u gofalwyr
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
7. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
8. effaith cam-drin ar bawb y mae'n effeithio arnynt
9. y gwahanol ffyrdd y gallai plant a phobl ifanc gael eu niweidio
10. sut gall plant a phobl ifanc gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
11. beth yw ystyr diogelu
12.
    12.1 mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu rywiol yn eu ceisio
13. ffynonellau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael i bobl sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth
14. rôl asiantaethau cymorth allanol sy'n darparu atgyfeiriadau a chymorth i blant a phobl ifanc
15. trefniadau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn eich ardal
16. safbwyntiau nodweddiadol sydd ar led yn gyhoeddus am lefelau camdriniaeth a'i hachosion
17. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gamdriniaeth
18. pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau perthnasol yng nghyd-destun diogelwch, iechyd a lles plant a phobl ifanc

19. pwysigrwydd sicrhau dealltwriaeth ac osgoi rhagdybiaethau
20. dulliau o wirio a chadarnhau gwybodaeth
21. dulliau a thechnegau ar gyfer gwahaniaethu rhwng a nodi:
• tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol
• tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy
• adroddiadau ail-law
• rhagfarn
• safbwyntiau sydd â thystiolaeth i'w hategu
22. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i blant a phobl ifanc deimlo'n gartrefol
23. sut i gymhwyso ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn eich maes ymarfer
24. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
25. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, i fodloni anghenion yr unigolyn
26. sut gall rhesymu neu ddehongli arwain at wahaniaeth rhwng yr hyn sy'n cael ei ddweud a'r hyn sy'n cael ei ddeall, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. egwyddorion sy'n rheoli pryd mae pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ddigon aeddfed i roi cydsyniad gwybodus i rannu eu gwybodaeth gyda phartïon eraill
28. pryd a sut i drafod pryderon am gamdriniaeth gyda rhieni a gofalwyr
29. ffactorau a all effeithio ar fagu plant a chynyddu risg camdriniaeth
30. arwyddion camdriniaeth bosibl ymhlith plant a phobl ifanc a sut gallant gael eu mynegi, gan gynnwys trwy:
• therapi chwarae
• gwaith celf
• perthnasoedd â phlant ac oedolion eraill
31. camau gweithredu sydd ar gael i chi lle nodir bod camdriniaeth wedi'i datgelu
32. anghenion gwybodaeth asiantaethau, sefydliadau ac unigolion eraill a phryd mae angen gwybodaeth arnynt
33. y gwahaniaethau rhwng rhannu gwybodaeth ar lefelau unigol, sefydliadol a phroffesiynol
34. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig plant a phobl ifanc
35. pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu bodloni
36. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gyda phlant a phobl ifanc a dulliau o wneud hynny

37. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
38. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
39. sut a phryd i ddefnyddio technegau gwrando gweithredol wrth weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teulu a'u gofalwyr
40. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
41. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a'r effaith y gall eich gwerthoedd a'ch credoau eich hun ei chael wrth weithio gyda goroeswyr
42. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
43. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny

## Geirfa